OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 725

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020

## RHAN 1

### Cyflwyniad

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) mae "claddu" yn cynnwys rhoi lludw person marw yn y ddaear;

(b) ystyr "gofalwr" yw person sy'n darparu gofal ar gyfer y person a gynorthwyir pan—

(i) bo hawlogaeth gan y gofalwr i asesiad o dan adran 24 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**),

(ii) bo'r gofal yn rhan o'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal cymunedol o dan Ran 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, neu

(iii) bo'r gofal wedi ei ddarparu gan ddarparwr gofal sydd wedi ei gofrestru o dan Ran 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**2**);

(c) mae "mynwent" yn cynnwys claddfa ac unrhyw fan arall sydd yn cael ei ddefnyddio i gladdu'r meirw;

(d) ystyr "coronafeirws" yw coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2);

(e) ystyr "athletwr elît" yw unigolyn sydd wedi ei ddynodi felly at ddibenion y Rheoliadau hyn gan Gyngor Chwaraeon Cymru;

(f) ystyr "awdurdod lleol" yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

(g) mae i "mangre agored" yr ystyr a roddir gan reoliad 12(3);

(h) mae i "cyfrifoldeb rhiant" yr un ysytr a roddir yn Neddf Plant 1989(**3**);

(i) mae "person sy'n gyfrifol am gynnal busnes" yn cynnwys perchennog a rheolwr y busnes hwnnw;

(j) mae "mangre" yn cynnwys unrhyw adeilad neu strwythur ac unrhyw dir;

(k) mae "person hyglwyf" yn cynnwys—

(i) unrhyw berson sy'n 70 oed neu'n hŷn;

(ii) unrhyw berson o dan 70 oed sydd â chyflwr iechyd isorweddol;

(iii) unrhyw berson sy'n feichiog;

(iv) unrhyw blentyn;

(**1**) 2014 dccc 4.
(**2**) 2016 dccc 2.
(**3**) 1989 p. 41. Gweler Rhan 1 y Ddeddf, lle y gwnaed amryw ddiwygiadau, gan gynnwys gan y Ddeddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 2008 (p. 22) ac O.S. 2019/1458.

(v) unrhyw berson sy'n oedolyn hyglwyf o fewn yr ystyr a roddir i "vulnerable adult" gan adran 60(1) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(**4**).

(2) At ddibenion y diffiniad o "athletwr elît" ym mharagraff (1)—

(a) nid yw unigolyn wedi ei ddynodi gan Gyngor Chwaraeon Cymru onid yw'r unigolyn wedi ei enwebu am ddynodiad gan gorff camp perthnasol a bod y Cyngor wedi derbyn yr enwebiad, a

(b) ystyr "corff camp perthnasol" yw corff llywodraethu cenedlaethol camp a gaiff enwebu athletwyr i gynrychioli—

(i) Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn y Gemau Olympaidd neu'r Gemau Paralympaidd, neu

(ii) Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad.

(3) At ddibenion y Rheoliadau hyn—

(a) mae cynulliad pan fydd dau neu ragor o bobl yn yr un man er mwyn gwneud rhywbeth gyda'i gilydd, a

(b) mae mangre o dan do os yw'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 2 o Reoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007(**5**).

(4) Os yw dwy aelwyd yn cytuno i gael eu trin fel un aelwyd (estynedig) at ddibenion y Rheoliadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn (ac eithrio ym mharagraffau (5) a (7)) at "aelwyd" i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys y ddwy aelwyd.

(5) Er mwyn cytuno i gael eu trin fel un aelwyd rhaid i bob oedolyn yn y ddwy aelwyd gytuno.

(6) Ond—

(a) dim ond gydag un aelwyd arall y caiff aelwyd gytuno i gael ei thrin fel un aelwyd, a

(b) os yw'r ddwy aelwyd yn peidio â chytuno i gael eu trin fel un aelwyd, ni chaiff y naill aelwyd na'r llall gytuno i gael ei thrin fel un aelwyd o dan baragraff (4) gydag unrhyw aelwyd arall.

(7) Os yw dwy aelwyd wedi cytuno i gael eu trin fel un aelwyd (estynedig) at ddibenion Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 maent i'w trin fel pe baent hefyd wedi cytuno i hynny at ddibenion y Rheoliadau hyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 2 mewn grym ar 11.7.2020, gweler **rhl. 1(3)(a)**

(**4**) 2006 c. 47, fel a ddiwygiwyd gan adran 65 o Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 (p. 9).

(**5**) O.S. 2007/787 (Cy. 68).

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– Regulations revoked by S.I. 2020/1149 reg. 34(1)(a)

**Changes and effects yet to be applied to the whole Instrument associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Instrument (including any effects on those provisions):

– Sch. 4A para. 1(h)(i) inserted by S.I. 2020/1043 reg. 2(2)
– reg. 2A(3A)(a) words substituted by S.I. 2020/1079 reg. 2(2)